# Polisi Derbyn

## Cwmpas a phwrpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar werthoedd y Coleg – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at y pethau pwysicaf yr ydym am eu cyflawni sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cael eu derbyn i Goleg Caerdydd a'r Fro **fod yn rhydd o wahaniaethu**. Byddwn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r holl ymgeiswyr a myfyrwyr mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol, sgiliau, cymorth tiwtorial ac ariannol a'r lefel a'r dewis o astudiaeth fwyaf priodol.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** tra byddant yn y Coleg, mewn amgylchedd sy'n dileu neu'n lleihau anfantais, yn cymryd camau i ddiwallu eu hanghenion ac sy'n annog cyfranogiad.
- Bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfrinachol, yn amserol, ac yn unol â chalendr derbyn y Coleg.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **wneud cynnydd** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod CCAF yn gweithredu proses gyson a chynhwysfawr ar gyfer mynediad i'r Coleg sy'n deg, yn dryloyw ac yn darparu cyfle cyfartal, wrth gynnal uniondeb proffesiynol. Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau o bob sector o'r gymuned. Byddwn yn ystyried pob cais yn ôl eu teilyngdod a'u gallu ac ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, oedran, crefydd neu gred, ffydd, statws economaidd-gymdeithasol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil.

Ystyrir ceisiadau gan ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau dysgu a/neu anawsterau ar yr un sail â phawb arall, ond gofynnir i ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw anghenion cymorth yn ystod y broses ymgeisio. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y coleg yn gallu diwallu anghenion cymorth yr ymgeiswyr a sicrhau bod y gefnogaeth ar waith cyn iddynt ymuno â'u cwrs. Gall unrhyw oedi wrth rannu'r wybodaeth hon gyfyngu ar allu'r coleg i sicrhau bod trefniadau cymorth amserol a phriodol ar waith.

Gall ceisiadau gael eu hadolygu gan Banel Cynhwysiad y Coleg sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Coleg yn gallu gwneud darpariaeth ddigonol i ddysgwyr. Os gwneir penderfyniad gan y Panel Cynhwysiant nad yw'r coleg yn gallu darparu cefnogaeth ddigonol a/neu fodloni anghenion dysgwr yn ddiogel, bydd y penderfyniad hwn yn disodli unrhyw gynigion cwricwlwm. Bydd penderfyniad y Panel Cynhwysiant yn cael ei anfon ymlaen at y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd, Addysgu a Dysgu i'w gadarnhau a'i gymeradwyo. Gall ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad Panel Cynhwysiant.

Yn CCAF, rydym yn cydnabod effaith ddwys trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar lesiant a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma yn ein polisïau a'n harferion er mwyn creu amgylchedd diogel, cefnogol ac iachusol i bawb.



| | |
|---|---|
| **Rhif yr Adolygiad:** | 9 |
| **Dyddiad yr Agolygiad Diwethaf** | Mawrth 2024 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | Mawrth 2026 |

Mae'r Polisi yn berthnasol i bob ymgeisydd i'r Coleg, er y bydd i ba raddau y bydd pob agwedd ar y Polisi Derbyn y gallu cael eu cymhwyso yn dibynnu ar ofynion cyrsiau unigol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n gwneud cais i raglenni dysgu neu'n cofrestru arnynt, beth bynnag fo'u dull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff sydd â rôl derbyn o fewn y coleg.

Mae'r Coleg yn cadw at bolisïau pob partner a sefydliad masnachfraint lle mae'r partner neu'r sefydliad hwnnw'n brif recriwtiwr.

## Datganiadau Polisi

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Datblygu gweithdrefnau i amlinellu sut y bydd gofynion y polisi yn cael eu cyflawni yn ymarferol ac a fydd yn diwallu gofynion deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig yn llawn.
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Hyfforddi'r holl staff yn llawn yn y gweithdrefnau cysylltiedig a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sylfaenol; bydd yr hyfforddiant hwn ar lefel briodol ar gyfer eu rôl.
- Hysbysu pawb yr effeithir arnynt gan y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig am eu cynnwys ynghyd â'r goblygiadau iddynt; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau masnachfraint.
- Darparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi'r gweithdrefnau cysylltiedig i gael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Cofnodi a monitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a'i weithdrefnau, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw ofynion allanol fel deddfwriaeth, canllawiau ac ati.
- Adolygu'r data uchod i ystyried effeithiolrwydd y polisi hwn a'i weithdrefnau i gefnogi gwelliant parhaus.
- Sicrhau bod pob darpar ddysgwr yn cael ei drin yn gyson, yn ddiduedd a heb ragfarn.

### Gwrthod

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i:

- Adolygu a gwrthod derbyn ymgeiswyr sydd wedi'u gwahardd o'r blaen o'r sefydliad addysgol hwn neu unrhyw sefydliad addysgol arall.
- Adolygu a gwrthod derbyn ymgeiswyr lle mae tystiolaeth y gallent fod yn fygythiad neu'n berygl iddynt eu hunain, eraill neu'r Coleg, neu os oes tystiolaeth y gallent effeithio'n negyddol ar lesiant

eraill. Mae hyn yn ymwneud â dyletswydd gofal y coleg i ddysgwyr, ei rwymedigaethau diogelu, prentisiaid a staff.

- Adolygu a gwrthod derbyn unrhyw ymgeisydd nad yw'n gallu bodloni gofynion mynediad penodol y rhaglen neu'r cwrs. Gall ffugio cymwysterau mynediad gan ymgeiswyr arwain at gamau disgyblu neu wrthod lle i'r ymgeisydd.

- Adolygu a gwrthod derbyn unrhyw un sy'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais neu gofrestru.

- Adolygu a gwrthod derbyn unrhyw ddysgwr sydd â dyledion heb eu talu i'r coleg.

- Adolygu a gwrthod derbyn unrhyw ddysgwyr nad ydym yn gallu diwallu eu hanghenion addysgol yn dilyn penderfyniad a wnaed gan Banel Cynhwysiant y Coleg.

- Gall y coleg ond cynnal dosbarthiadau lle mae digon o fyfyrwyr.

Bydd yr uchod yn destun adolygiad gan banel mynediad teg, dan gadeiryddiaeth Pennaeth Cynorthwyol perthnasol i asesu addasrwydd i astudio mewn amgylchedd coleg a dyletswydd gofal i fyfyrwyr, prentisiaid a staff eraill.

### Proses apelio ar gyfer ymgeiswyr

Os yw ymgeisydd yn dymuno apelio yn erbyn cael eu gwrthod ar gwrs yn y coleg, dylid trafod hyn yn anffurfiol gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r swyddog dynodedig yn y lle cyntaf.

Lle na cheir datrysiad yn ystod y cam anffurfiol, ymdrinnir ag apêl ysgrifenedig ffurfiol yn unol â Gweithdrefnau Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion y Coleg. Bydd unrhyw gyfathrebiad â dysgwyr ac eraill yn cael ei gynnal yn unol â'n Polisïau a'n Gweithdrefnau Diogelu Data.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y Polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â'r telerau adolygu polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar ei gynnwys. Bydd y Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod polisi a gweithdrefnau Derbyn y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer derbyniadau.

Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am:

- Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.




| | |
|---|---|
| **Rhif yr Adolygiad:** | 9 |
| **Dyddiad yr Agolygiad Diwethaf** | Mawrth 2024 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | Mawrth 2026 |

- Monitro gweithrediad y gweithdrefnau, cefnogi staff i gadw at y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ac ati yn ymgorffori'r gweithdrefnau derbyn.

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am:

- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella ymarfer.

Mae Panel Cynhwysiant y Coleg yn gyfrifol am:

- Sicrhau y gall y Coleg wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymorth.
- Cadw cofnod o'r achosion eithriadol lle gwrthodir mynediad i ymgeisydd ar y sail nad yw'r cymorth ychwanegol perthnasol ar gael a/neu risg sylweddol o niwed na fyddai'r coleg yn gallu ei reoli'n rhesymol ac yn ddiogel.
- Sicrhau bod ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni arwahanol fel Sgiliau Byw'n Annibynnol, yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyrsiau hynny.
- Sicrhau bod y coleg yn rhoi cyngor ynghylch addasrwydd rhaglenni a'r cymorth a/neu'r offer sydd ar gael.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am:

- Trin pob dysgwr ag urddas a pharch, er mwyn sicrhau nad yw ei ymddygiad ei hun yn achosi tramgwydd neu gamddealltwriaeth.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi Derbyn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol â staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu.
- Mynychu digwyddiadau DPP ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am:

- Mynychu sesiynau cynefino a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion y mae'n eu codi.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.
- Cyfrannu at arolygon dysgwyr a grwpiau ffocws i roi adborth ar y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a sut maent yn effeithio arnynt.

## Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

# Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

# Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n datgelu bod ganddynt euogfarn droseddol sydd heb ei disbyddu/heb ddarfod gwblhau a chyflwyno ffurflen ddatgelu cofnodion troseddol gyfrinachol a'i hanfon at y Tîm Diogelu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer pob ymgeisydd wrth gadw ein dyletswydd i ddarparu amgylchedd dysgu saff a diogel ar gampysau'r Coleg.

# Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

# Cyfeirnodau

# Polisïau Cysylltiedig

- Datgeliad Cofnodion Troseddol
- Polisi Ffioedd
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Datgelu
- Diogelu Data

# Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Diogelu Data
- Datgeliad Cofnodion Troseddol
- Derbyniadau AU
- Cronfa Wrth Gefn Ariannol
- Teithio
- Gofal Plant
- Cwynion, sylwadau a chanmoliaeth
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Datgelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Cyfathrebu a Storio

Mae'r polisi hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Mae'r polisi hwn yn cael ei gadw ar fewnrwyd y cwmni.
Mae'r polisi hwn yn cael ei rannu â dysgwyr.

## Rhestr termau

Dim

## Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: Mawrth 2026** | **Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr** |
| **Cymeradwywyd gan: CQSA** | **Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu** |
| **Dyddiad adolygu: Mawrth 2026** | **Ar gael i fyfyrwyr: Ydw** |



| | |
|---|---|
| **Rhif yr Adolygiad:** | 9 |
| **Dyddiad yr Agolygiad Diwethaf** | Mawrth 2024 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | Mawrth 2026 |